

Cymru'r Dyfodol

Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Tachwedd 2020

1. Cyflwyniad

1. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (y Ddeddf Cynllunio) yn darparu ar gyfer Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) sy'n cwmpasu Cymru gyfan ac yn amlinellu polisiau Llywodraeth Cymru o ran datblygu a defnyddio tir mewn cyd-destun gofodol. Mae'n nodi fframwaith defnydd tir dros 20 mlynedd a chaiff ei adolygu o leiaf bob pum mlynedd.

2. Fe wnaeth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol osod y FfDC drafft a'r dogfennau cysylltiedig gerbron y Senedd ar 21 Medi 2020, a thrwy wneud hynny, sbardunodd gyfnod craffu statudol o 60 diwrnod fel y nodir yn y Ddeddf Cynllunio.

3. Yn unol â'r Ddeddf Cynllunio, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw benderfyniad neu argymhelliad a wneir gan y Senedd neu unrhyw un o'i phwyllgorau yn ystod y cyfnod craffu 60 diwrnod, wrth benderfynu a ddylid diwygio'r FfDC drafft ai peidio. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad ochr yn ochr â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol terfynol yn nodi sut mae wedi ystyried penderfyniadau neu argymhellion y Senedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at fersiwn ddiweddaraf y FfDC drafft fel "Cymru'r Dyfodol - y cynllun cenedlaethol 2040". Er mwyn eglurder, bydd yr adroddiad hwn yn cyfeirio at FfDC drafft 2020 fel "Cymru'r Dyfodol".

Ein dull gweithredu

4. Gwahoddodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig a chlywodd dystiolaeth lafar gan randdeiliaid yn ystod cyfarfodydd ar 15 Hydref a 5 Tachwedd. Mae rhestr o'r rhai a gyfrannodd at waith y Pwyllgor wedi'i chynnwys yn Atodiad yr Adroddiad hwn.



Cynghorydd arbenigol allanol

5. O ran ei waith craffu ar FfDC drafft 2019 (gweler Pennod 2), manteisiodd y Pwyllgor ar wasanaethau cynghorydd arbenigol allanol, sef Dr Graeme Purves OBE¹, i gefnogi ei waith craffu ar y FfDC drafft. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i Graeme Purves am ei gymorth, a fu'n amhrisiadwy o ran llywio trafodaethau a chasgliadau'r Pwyllgor.

¹ Mae Graeme Purves yn gyn Brif Gynlluniwr Cynorthwyol gyda Llywodraeth yr Alban. Arweiniodd y timau a baratôdd Fframweithiau Cynllunio Cenedlaethol cyntaf ac ail yr Alban. Mae'n aelod o Gomisiwn UK2070, sydd wrthi'n cynnal ymchwiliad i anghydraddoldebau gofodol ledled y DU. Mae hefyd yn Gyfarwyddwr yn Ymddiriedolaeth Goffa Syr Patrick Geddes ac yn aelod o Bwyllgor Cynghori'r Alban o'r Gymdeithas Frenhinol ar gyfer Diogelu Adar.

2. Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar FfDC drafft 2019

Gwaith craffu ar FfDC drafft 2019

6. Fe wnaeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau edrych ar FfDC drafft 2019 ddiwedd 2019.

7. Roedd adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn cynnwys 50 o gasgliadau i Lywodraeth Cymru² mewn sawl maes polisi, gan gynnwys y canlynol:

- nifer y rhanbarthau;
- datgarboneiddio a newid hinsawdd;
- ynni;
- tai;
- polisiau'r Gymraeg;
- bioamrywiaeth

8. Yn y mwyafrif o feysydd polisi, roedd Llywodraeth Cymru yn barod i dderbyn barn y Pwyllgor. Derbyniwyd 22 o'r casgliadau yn llawn a derbyniwyd 25 ohonynt 'mewn egwyddor'. O ganlyniad i waith y Pwyllgor ar FfDC drafft 2019, aethpwyd i'r afael â bylchau yn y cwmpas polisi, gwnaed gwelliannau i'r diagramau strategol cenedlaethol a rhanbarthol, ychwanegwyd mapiau a diagramau i ddangos materion polisi allweddol, a chafodd cyflwyniad graffig y ddogfen ei wella.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar feysydd sy'n peri pryder o hyd neu lle mae cyfranwyr at waith y Pwyllgor wedi codi materion newydd.

² Mae'r ymateb o sylwedd gan Lywodraeth Cymru i gasgliadau'r Pwyllgor i'w weld yn adroddiad yr ymgynghoriad a osododd y Gweinidog ar 21 Medi 2020.

3. Strategaeth

9. Cyflwynodd y Ddeddf Cynllunio ddwy lefel newydd o gynllun datblygu, a fydd uwchlaw'r Cynlluniau Datblygu Lleol:

- FfDC sy'n cwmpasu Cymru gyfan;
- Cynlluniau Datblygu Strategol sy'n cwmpasu rhanbarthau penodol.

10. Ar ddechrau'r broses, nododd Llywodraeth Cymru ddiben y Fframwaith fel:

- nodi lle mae angen twf a seilwaith o bwysigrwydd cenedlaethol a sut gall y system gynllunio gyflawni hyn;
- rhoi cyfarwyddyd i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol;
- cefnogi penderfyniadau ynghylch ceisiadau o dan y drefn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol;
- ategu strategaethau economaidd, trafnidiaeth, amgylcheddol, tai, ynni a diwylliannol cenedlaethol a sicrhau y gellir cyflawni'r rhain drwy'r system gynllunio;
- bodoli ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru, sy'n disgrifio polisiau cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac a fydd yn parhau i bennu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir.

11. Cyhoeddwyd fersiwn ddiweddaraf Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10) ym mis Rhagfyr 2018, ar ôl ei diwygio i ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

12. Bwriad Llywodraeth Cymru yw y dylai Cymru'r Dyfodol roi cyd-destun rhanbarthol i'r system gynllunio cyn mabwysiadu Cynlluniau Datblygu Strategol.

Y pedwar rhanbarth

13. Yn ei adroddiad ar FfDC drafft 2019, daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai'r FfDC adlewyrchu model pedwar rhanbarth, mewn cyferbyniad â'r model tri rhanbarth a oedd yn cael ei gynneg bryd hynny. Derbyniodd Llywodraeth Cymru gasgliad y Pwyllgor ac mae wedi dewis creu Rhanbarth Canolbarth Cymru, sy'n cwmpasu Ceredigion a Phowys (tudalennau 100 a 126-141). Mae hyn yn wahanol i'r gwaith

ymchwil gan Brifysgol Caerdydd, a oedd wedi cynnig y dylai Powys ffurfio rhanbarth Canol Dwyrain Cymru ynddo'i hun.

Meysydd twf

14. Mae Polisiâu 1 i 6 yn ymdrin â meysydd twf:

- Mae Polisi 1 – “Ble bydd Cymru’n tyfu” yn nodi tair Ardal Dwf Genedlaethol – Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd, Bae Abertawe a Llanelli, a Wrecsam a Glannau Dyfrdwy – lle bydd twf cyflogaeth a thai, a buddsoddi mewn seilwaith.
- Mae Polisi 2 – “Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol” yn nodi nifer o egwyddorion creu lleoedd strategol ac yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio ddefnyddio cynlluniau datblygu i bennu gweledigaeth ar gyfer pob tref a dinas, wedi'i hategu gan fframwaith gofodol.
- Mae Polisi 3 – “Cefnogi Twf ac Adfywio Trefol – Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus” yn dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn cydgasglu tir, yn buddsoddi mewn seilwaith ac yn paratoi safleoedd i'w datblygu.
- Mae Polisiâu 4 a 5 yn ymdrin â Chymru wledig (gweler isod)
- Mae Polisi 6 – “Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf” yn dweud bod yn rhaid lleoli cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus newydd sylweddol yng nghanol trefi a dinasoedd.

Polisiâu 4 a 5 – Cefnogi Cymunedau Gwledig a Cefnogi'r economi wledig

15. Yn ei adroddiad ar FfDC drafft 2019, argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r fframwaith gydnabod cyfleoedd i bobl fyw a gweithio'n gynaliadwy y tu allan i drefi a dinasoedd, a nodi strategaeth gadarnhaol ar gyfer adnewyddu a datblygu economaidd a chymdeithasol yng Nghymru wledig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio mynd i'r afael â hyn drwy adolygu Polisi 4 - Cefnogi Cymunedau Gwledig a chreu Polisi 5 newydd - Cefnogi'r economi wledig.

16. Er bod FfDC drafft 2019 wedi nodi y dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol gynllunio'n gadarnhaol i ddiwallu anghenion cymunedau gwledig, mae Cymru'r Dyfodol yn nodi bod yn rhaid i'r cynlluniau hyn nodi eu cymunedau gwledig, asesu eu hanghenion a gosod polisiâu sy'n eu cefnogi.

17. Mae Polisi 5 yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy, priodol a chymesur mewn trefi gwledig. Mae hefyd yn gefnogol i ddatblygu sectorau a busnesau technoleg arloesol ac sy'n dod i'r amlwg, er mwyn helpu ardaloedd gwledig, gan greu swyddi cyflog uwch.

Tystiolaeth

18. Fe wnaeth y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi ddadlau y dylid cynnwys y sector preifat yn y rhestr o sefydliadau y mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio weithio gyda nhw ym Mholisi 3 - Cefnogi Twf ac Adfywio Trefol. Fe wnaeth ddadlau hefyd y dylid cynnwys defnydd preswyl yn y cymysgedd o ddefnyddiau a ddarperir yng nghanol trefi ym Mholisi 6 - Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf.

Bargeinion twf

19. Mae Pennod 5 Cymru'r Dyfodol yn nodi y dylai Cynlluniau Datblygu Strategol gael eu llywio gan fargeinion twf a helpu i'w cyflawni, ond nid oes arwydd bod y berthynas rhwng bargeinion twf a pholisi cynllunio gofodol yn ddwyochrog.

20. Dywedodd y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi mai cynlluniau datblygu strategol ddylai fod y ddogfen arweiniol sy'n llywio bargeinion twf. Pwysleisiodd pa mor bwysig yw alinio'r cynllun datblygu strategol a Bargaen Dinas-Ranbarth Caerdydd a'u bod yn ategu ei gilydd. Dywedodd Dr Roisin Willmott (RTPI Cymru) fod angen cydadwaith rhwng y ddau at y dyfodol.

21. Fe wnaeth Savills ddadlau y dylai Cymru'r Dyfodol gyfeirio at sectorau ac amcanion a nodir yn Ffyniant i Bawb ac adlewyrchu'r dadansoddiad a'r cynigion a nodir yn Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru: Fframwaith Gweithredu. Dylai Cymru'r Dyfodol nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i drawsnewid i weithgynhyrchu uchel ei werth a nodi'r clystyrau a fydd yn helpu i yrru'r trawsnewid.

Llifogydd

22. Mae Cymru'r Dyfodol yn cefnogi systemau rheoli perygl llifogydd sy'n galluogi ac yn cynnal twf ac adfywio strategol cynaliadwy mewn Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd a datblygwyr er mwyn cynllunio a buddsoddi mewn seilwaith newydd a gwell, gan hyrwyddo atebion yn seiliedig ar natur fel blaenoriaeth.

23. Pwysleisiodd y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi bwysigrwydd tystiolaeth a chyingor cyfoes i arwain datblygiad i ffwrdd o'r ardaloedd y mae llifogydd yn fwyaf

tebygol o effeithio arnynt. Nododd Dr Roisin Willmott (RTPI Cymru) fod tensiwn rhwng strategaeth dwf Cymru'r Dyfodol ac ardaloedd lle mae perygl o lifogydd, yn enwedig yn Ne-ddwyrain Cymru.

24. Nododd RTPI Cymru, hefyd, fod anheddiad yng Nghymru wedi'i ganoli'n helaeth ar orlifdiroedd arfordirol a bod potensial i Cymru'r Dyfodol gymryd rhagor o gamau wrth fynd i'r afael ag addasu arfordirol.

Y Gymraeg

25. Fe wnaeth Cyngor Sir Caerfyrddin ddadlau y dylid nodi'r Gymraeg yn Cymru'r Dyfodol fel mater strategol o bwysigrwydd cenedlaethol ac y dylai polisi penodol fynd i'r afael â hyn.

Hawliau tramwy cyhoeddus a thir comin

26. Fe wnaeth Cerddwyr Cymru ddadlau y dylai Cymru'r Dyfodol gydnabod y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad at dir comin fel asedau cenedlaethol a theithio hamdden fel dimensiwn pwysig o ran teithio llesol.

Barn y Gweinidog

27. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod wedi ystyried dull pedwar rhanbarth mewn ymateb i drafodaethau a gwaith ymgynghori ag awdurdodau lleol ynghylch modelau rhanbarthol yn sgil Bil Llywodraeth Leol 2019. Dywedodd y Gweinidog fod Ceredigion a Phowys wedi cyflwyno dadleuon ynghylch pam nad oeddent yn cyd-fynd yn dda â Dinas-Ranbarth Bae Abertawe am nifer o resymau, a'i bod wedi dod yn fwyfwy amlwg bod y rhesymau hynny wedi gorgyffwrdd â'u meddylfryd am y FfDC. Esboniodd y Gweinidog:

“the balance was felt that the four-model approach offered a better focus for the regional issues that we also outline in the NDF, and in particular for the regional planning model that we're very keen on seeing hang off this.”

28. Dywedodd y Gweinidog y byddai Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2019 yn cynnig y cyfrwng i sbarduno cynnydd o ran bwrw ymlaen â Chynlluniau Datblygu Strategol:

“We expect them (*local authorities*) –in fact they will be mandated—to deliver those plans, because one of the frustrations of the planning Act in Wales has been that, with the exception of the Cardiff region, which has very belatedly come to the table, other regions have been very slow

to come forward with those regional strategic plans. So, this gives them the vehicle by which they can do it, and it allows us the mandating powers to make sure that those plans come forward, because they are an absolutely essential part of the plan-led planning policy in Wales.”

29. Mewn ymateb i gwestiwn am gwmpas daearyddol Cynlluniau Datblygu Strategol, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'n disgwyl i'r cyrff sy'n llunio cynlluniau gydweithredu i sicrhau bod ardaloedd ychydig y tu allan i'w ffiniau yn cael eu hymgorffori'n iawn yn y math iawn o gynllun strategol ar gyfer eu hardal. Pwysleisiodd y Gweinidog y byddai angen i Gynlluniau Datblygu Strategol ystyried ardaloedd daearyddol cyfagos a allai, mewn rhai achosion, fod yn ddarostyngedig i Gynllun Datblygu Strategol gwahanol. Cyfeiriodd y Gweinidog at Ystradgynlais, tref ym Mhowys, fel enghraifft i fynegi'r pwynt hwn:

“...in terms of spatial planning for [Ystradgynlais], you have to absolutely be certain that its connectivity into the Swansea city bay region is as good as its connectivity back into its own regional or strategic area”.

30. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a yw Cymru'r Dyfodol yn ddigon hyblyg i ymateb i Brexit, pwysleisiodd y Gweinidog y byddai'n darparu fframwaith sy'n ddigon cadarn i ymateb i 'sioc yn y system':

“the idea is to have a framework in place that is resilient to that and allows both planned building and rebuilding and renewal.”

31. Esboniodd y Gweinidog fod Cymru'r Dyfodol yn ymdrin â Chymru wledig, gan gynnwys diboblogi, ac y byddai'n disgwyl i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol ymdrin â hynny'n fanylach. Aeth yn ei blaen i ddweud y canlynol:

“We need to be able to ensure that there's a sustainable lifestyle available for people in our outstanding rural areas, and that may well be because they have a broadband connection and can work all over the world from their home, or it may well be because they're providing a service very much needed locally, or they're farmers, or whatever it is, but we need to make sure that the plans reflect the need for those kinds of sustainable communities.”

32. Mewn ymateb i gwestiwn am rôl prifysgolion, dywedodd y Gweinidog eu bod yn rhan bwysig iawn o'r fframweithiau rhanbarthol. Esboniodd y canlynol:

“They tend to be big regional employers, big regional influencers, so when you're looking at the strategic regional development plans, you'd expect the universities and their policies—and they're important to the local economy and community—to be reflected and developed inside the strategic plans at regional level, and then obviously again in the local development plan in terms of expansion of the university and so on, which you can see in Cardiff and in Swansea at the moment.”

Ein barn ni

Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno model pedwar rhanbarth yn Cymru'r Dyfodol. Rydym yn croesawu'r sicrwydd gan y Gweinidog bod hyn wedi digwydd oherwydd trafodaethau a gwaith ymgynghori â'r awdurdodau lleol perthnasol.

Bwriad Llywodraeth Cymru yw y dylai Cymru'r Dyfodol roi cyd-destun rhanbarthol i'r system gynllunio cyn mabwysiadu Cynlluniau Datblygu Strategol. Nodwn, o ganlyniad, fod Cymru'r Dyfodol weithiau'n cynnwys manylion y byddem yn disgwyl iddynt ymddangos mewn Cynlluniau Datblygu Strategol. Mae'r Gweinidog a chyfranwyr eraill wedi awgrymu y bydd hyn yn cael ei ailgydbwyso dros amser. Rydym yn derbyn y pwynt hwn. Serch hynny, mae'n pwysleisio pwysigrwydd cyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol cyn gynted â phosibl.

Nodwn mai'r mecanwaith sydd wedi'i nodi ym Mil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ar gyfer datblygu Cynlluniau Datblygu Strategol yw sefydlu “cyd-bwyllgor corfforaethol” sy'n cynnwys cynrychiolwyr o fwy nag un awdurdod lleol. Fel rydym wedi'i ddweud, dylid bwrw ymlaen yn gyflym i ddatblygu Cynlluniau Datblygu Strategol, ac rydym, mewn egwyddor, yn cefnogi mwy o gydweithredu rhwng awdurdodau lleol. Fodd bynnag, rhaid i'r dull gweithredu newydd hwn beidio ag arwain yn anfwriadol at lai o atebolrwydd i gymunedau lleol,

Yn ein hadroddiad ar FfDC drafft 2019, daethom i'r casgliad y “dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau bod cynllunio strategol cenedlaethol a rhanbarthol a bargeinion dinas-ranbarth yn cael eu cydgysylltu a'u halinio'n briodol”. Mae Pennod 5 Cymru'r Dyfodol yn nodi y dylai cynlluniau datblygu strategol gael eu llywio gan fargeinion twf ac y dylent helpu i'w cyflawni, ond nid oes arwydd bod y berthynas rhwng bargeinion twf a pholisi cynllunio gofodol yn ddwyochrog.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru gasgliad y Pwyllgor y dylai Cymru'r Dyfodol fod â phwrpas economaidd cliriach. Fe wnaeth cyfranwyr at waith y Pwyllgor sawl awgrym ynghylch sut y gellid cryfhau Cymru'r Dyfodol ymhellach yn y maes hwn. Caiff yr awgrymiadau hyn eu hadlewyrchu yn argymhellion 2, 3, 4 a 5 isod. Nodwn y bydd yr adolygiad cyntaf o Cymru'r Dyfodol yn asesu a yw wedi cefnogi economi sy'n sicrhau ffyniant i bawb. Credwn fod hyn yn briodol ac yn angenrheidiol.

Rydym yn croesawu ymgais Llywodraeth Cymru i ymdrin â chasgliadau'r Pwyllgor y dylai'r fframwaith gydnabod cyfleoedd i bobl fyw a gweithio'n gynaliadwy y tu allan i drefi a dinasoedd, a nodi strategaeth gadarnhaol ar gyfer adnewyddu a datblygu economaidd a chymdeithasol yng Nghymru wledig. Mae wedi gwneud hyn drwy adolygu Polisi 4 a chreu Polisi 5 newydd. Serch hynny, credwn fod lle i Cymru'r Dyfodol gynnwys rhagor o ganllawiau lleoliadol ynghylch ynd i'r afael â diboblogi a chredwn y dylid ei ddiwygio felly.

Mewn perthynas â llifogydd, nodwn y sylwadau am densiwn posibl rhwng strategaeth dwf Cymru'r Dyfodol ac ardaloedd lle mae perygl o lifogydd, yn enwedig yn Ne-ddwyrain Cymru. Credwn y dylai Cymru'r Dyfodol fynd i'r afael â hyn.

Nodwn fod Cymru'r Dyfodol yn ceisio gwneud datganiad cliriach am rôl bwysig prifysgolion o ran cefnogi datblygu ac adnewyddu strategol ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol. Fodd bynnag, credwn fod lle am ymrwymiad penodol i ymgysylltiad mwy rhagweithiol â phrifysgolion, a hynny er mwyn gwireddu eu cyfraniad posibl at ddatblygiad cenedlaethol a rhanbarthol.

Yn olaf, rydym yn croesawu ac yn cymeradwyo'r awgrym gan Cerddwyr Cymru y dylai Cymru'r Dyfodol gydnabod y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad i dir comin fel asedau cenedlaethol.

Barn leiafrifol

Yn ystod trafodaeth y Pwyllgor ynghylch ei adroddiad, fe wnaeth un Aelodau fynegi gwrthwynebiad i rai o'r polisiau yn Cymru'r Dyfodol, ac felly i agweddau ar gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor.

Nid oedd Llyr Gruffydd yn gallu cefnogi'r model pedwar rhanbarth sydd wedi'i nodi yn Cymru'r Dyfodol, na'r polisiau mewn perthynas ag Ardaloedd Twf Cenedlaethol.

O ystyried ei wrthwynebiad i'r agweddau hyn ar fframwaith Cymru'r Dyfodol, dywedodd Llyr Gruffydd nad oedd mewn safle i gefnogi argymhellion uniongyrchol neu anuniongyrchol mewn perthynas â'r polisiau hyn.

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Cymru'r Dyfodol nodi'n benodol yr angen am berthynas ddwyochrog ac ailadroddol rhwng Cynlluniau Datblygu Strategol a bargeinion twf dros amser.

Argymhelliad 2. Dylai Polisi 6 gynnwys eiddo preswyl yn y rhestr o gyfleusterau y mae'n rhaid eu lleoli yng nghanol trefi a dinasoedd.

Argymhelliad 3. Dylai Cymru'r Dyfodol nodi sut y bydd y strategaeth y mae'n ei hamlinellu yn hyrwyddo'r amcanion sydd yn Ffyniant i Bawb a'r cynigion sydd yn Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru.

Argymhelliad 4. Dylai polisiau ar gyfer Ardaloedd Twf Cenedlaethol nodi'r clystyrau a'r sectorau sy'n bwysig i bob rhanbarth.

Argymhelliad 5. Dylid diwygio Cymru'r Dyfodol i gynnwys rhagor o ganllawiau lleoliadol ynghylch mynd i'r afael â diboblogi gwledig.

Argymhelliad 6. Dylai Polisi 19 nodi goblygiadau perygl llifogydd a newid hinsawdd ar gyfer strategaeth anheddu ac addasu arfordirol fel mater i fynd i'r afael ag ef mewn Cynlluniau Datblygu Strategol.

Argymhelliad 7. Dylai Cymru'r Dyfodol fynd i'r afael â'r tensiwn posibl rhwng strategaeth dwf Cymru'r Dyfodol ac ardaloedd lle mae perygl o lifogydd, yn enwedig yn Ne-ddwyrain Cymru. Dylai Cymru'r Dyfodol roi mwy o bwys i'r angen i atal datblygiad sydd mewn perygl o lifogydd.

Argymhelliad 8. Dylai Cymru'r dyfodol gynnwys ymrwymiad i ymgysylltiad mwy rhagweithiol â phrifysgolion, gan eu nodi fel partneriaid gweithredol ym maes datblygu cenedlaethol a rhanbarthol

Argymhelliad 9. Dylai Cymru'r Dyfodol gydnabod y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad i dir comin fel asedau cenedlaethol.

4. Adferiad ar ôl COVID-19

- 33.** Ceir sawl cyfeiriad yn Cymru'r Dyfodol at effeithiau pandemig COVID-19. Mae'n tynnu sylw at newidiadau o ran ymddygiad mewn ymateb i'r pandemig a gwerth mynediad i fannau agored yn ystod cyfnodau dan gyfyngiadau symud.
- 34.** Fe wnaeth Ystadau Llanarth ddadlau y dylai Cymru'r Dyfodol ddarparu fframwaith ar gyfer adferiad ar ôl COVID-19 ac unrhyw waith y mae angen ei wneud i ailstrwythuro'r economi o ganlyniad iddo.
- 35.** Fe wnaeth Ystadau Llanarth ddadlau, hefyd, fod dyhead Llywodraeth Cymru y bydd cyfran sylweddol o'r gweithlu yn gweithio gartref yn y dyfodol yn cynnig cyfle sylweddol i ganolbwyntio twf ar hybiau cymdogaeth a chymuned ledled Cymru, yn hytrach na'u crynhoi mewn dinasoedd a threfi mawr.
- 36.** Gwnaeth y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi bwynt tebyg, gan gyfeirio hefyd at yr awydd am erddi a mynediad i gefn gwlad a ddaeth i'r amlwg pan oedd cyfyngiadau symud. Dywedodd Cyngor Sir Caerfyrddin, er bod cyfleoedd am gartrefi newydd a datblygiad arall mewn pentrefi llai yn gymharol fach, eu bod yn bwysig o ran cynnal cymunedau ac economïau gwledig.

Barn y Gweinidog

- 37.** Fe wnaeth y Gweinidog ddadlau bod y pwyslais y mae Cymru'r Dyfodol yn ei roi ar newid hinsawdd, creu lleoedd a gwytnwch yn briodol i'r heriau y bydd Cymru'n eu hwynebu yn sgil y pandemig.
- 38.** Dywedodd y Gweinidog fod polisi cynllunio Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar greu lleoedd a sicrhau bod Cymru'n iachach, yn fwy cyfartal ac yn fwy amgylcheddol gyfrifol. Roedd hyn wedi bod yn rhagweledol am y rheswm a ganlyn:

“What's happened in the pandemic is it's accelerated that process. So, we expected that process to take longer than it's taken, but the documents anticipated the process, and, in fact, the pandemic has just proved that it was the direction of travel; it's just gone an awful lot faster than any of us would have thought.”

- 39.** Pan gafodd ei herio ynghylch a oes digon o hyblygrwydd yn Cymru'r Dyfodol i ymateb i bandemig COVID-19, ymateb y Gweinidog oedd:

“the NDF is a broad outline planning framework; it's not a detailed delivery vehicle, and we're very confident that the broad outline planning framework could accommodate some of the issues that you've just set out.”

40. Esboniodd fod Cymru'r Dyfodol yn ddogfen fyw sydd i fod i gwmpasu cyfnod o 20 mlynedd, ac ychwanegodd y canlynol:

“I'd be very disappointed, actually, if it needed to be revised in the teeth of what, let's face it, is a pretty bad storm we're in at the moment, but the whole point about it is that it's a resilient document that provides that framework for us going forward.”

Ein barn ni

Nodwn hyder y Gweinidog bod Cymru'r Dyfodol, fel fframwaith cynllunio, yn ddigon hyblyg a chadarn i ymateb i newidiadau cymdeithasol sy'n deillio o bandemig COVID-19. Credwn ei bod yn rhy gynnar i farnu effeithiau tymor canolig a thymor hwy y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn sgil y pandemig. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi sôn am ddyhead i gynyddu'n sylweddol nifer y gweithwyr yng Nghymru sy'n gweithio gartref yn y dyfodol. Bydd angen gweithredu polisiâu fel y rhain yn y fframwaith y mae Cymru'r Dyfodol yn ei amlinellu.

Yn ei adroddiad cynnydd, Go Big: Go Local, a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2020, fe wnaeth Comisiwn UK2070 rybuddio y gallai pandemig COVID-19 waethygu anghydraddoldebau rhanbarthol a chael effeithiau anghymesur ar yr henoed a chyfleoedd i bobl ifanc. Argymhellodd y dylai strategaethau ar gyfer adferiad roi pwyslais ar fuddsoddi mewn seilwaith i feithrin gwytnwch a chryfhau cysylltedd.

Credwn y dylai Cymru'r Dyfodol nodi'n gliriach sut y gall ymateb i'r materion hyn. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod Cymru'r Dyfodol a'i gwaith adfer ar ôl COVID-19 yn integredig ac yn ategol.

Argymhellion

Argymhelliad 10. Dylai Cymru'r Dyfodol gynnwys datganiad clir i adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd o COVID-19 ac egluro sut y bydd y fframwaith yn helpu i wella'r adferiad ar ôl COVID-19 ymhellach. Dylai gydnabod y cyfraniadau posibl gan fuddsoddiadau mewn seilwaith, tai, cysylltedd, rhwydweithiau gwresogi a chyfalaf naturiol, a chynyddu capasiti yn yr economi sylfaenol.

5. Ynni

Seilwaith trosglwyddo a dosbarthu trydan

- 41.** Fe wnaeth Renewables UK Cymru, Sefydliad Siartredig Tai Cymru ac RWE Renewables fynegi pryderon ynghylch diffyg capasiti grid i ddarparu ar gyfer datblygiadau ym maes ynni adnewyddadwy newydd a datgarboneiddio gwres a thrafnidiaeth.
- 42.** Roedd y Grid Cenedlaethol yn credu y dylai Llywodraeth Cymru arwain o ran cydgysylltu dull gweithredu strategol ar gyfer cryfhau'r rhwydwaith grid a'r seilwaith dosbarthu, gan ganolbwyntio'n benodol ar ganolbarth Cymru.
- 43.** Roedd Renewable UK Cymru ac RWE Renewables yn cytuno bod angen dull cydweithredol o ddatblygu strategaeth ar gyfer trosglwyddo a dosbarthu trydan.

Polisi 16 – Rhwydweithiau gwresogi

- 44.** Mae Rhwydweithiau Gwresogi Ardal yn ddull o gyflenwi gwres a dŵr poeth i sawl adeilad o ffynhonnell wres ganolog. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi y gallant fod y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu gwres carbon isel, yn enwedig mewn ardaloedd trefol. Mae hefyd yn nodi y dylai cynigion ar gyfer datblygiadau defnydd cymysg ar raddfa fawr o 100 neu fwy o anheddau neu 10,000 metr sgwâr neu fwy o arwynebedd llawr masnachol ystyried y potensial ar gyfer rhwydwaith gwresogi, er y gallent fod islaw'r trothwy hwn.
- 45.** Fe wnaeth y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi ddadlau y byddai'n ddefnyddiol bod Cymru'r Dyfodol yn gosod trothwy y mae angen Rhwydweithiau Gwresogi Ardal uwchlaw iddo.

Ynni Adnewyddadwy

- 46.** Mae Cymru'r Dyfodol yn pennu dau bolisi mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mae Polisiâu 17 a 18 yn cynnwys polisiâu strategol gofodol a seiliedig ar feini prawf y dylid eu hystyried gyda'i gilydd wrth benderfynu ar geisiadau. Dylai cynigion sicrhau nad oes effaith niweidiol annerbyniol sylweddol ar yr amgylchedd naturiol cyfagos na chymunedau lleol.

Polisi 17 – Ynni adnewyddadwy a charbon isel a'r seilwaith cysylltiedig

47. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn gryf o blaid egwyddor datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel o'r holl dechnolegau ac ar bob graddfa i ddiwallu anghenion ynni yn y dyfodol.

48. Yn yr 'Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer Ynni Gwynt', mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi modelu'r effaith debygol ar y dirwedd ac wedi nodi y gellir lleoli datblygiad yno mewn modd derbyniol. Mae rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni gwynt mawr (gan gynnwys adbweru) yn yr ardaloedd hyn, yn amodol ar y meini prawf ym Mholisi 18. Fodd bynnag, ni chaniateir datblygiadau ynni gwynt nac ynni'r haul mawr mewn Parciau Cenedlaethol nac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, a dylai pob cynnig ddangos na chânt effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd.

Polisi 18 - Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel - Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

49. Caiff cynigion ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel (gan gynnwys adbweru) sy'n gymwys fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol eu caniatáu, yn ddarostyngedig i Bolisi 17 a'r meini prawf a nodir o dan Bolisi 18. Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu ar ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, gan gynnwys datblygiadau ynni mawr. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:

- Pob safle cynhyrchu ynni gwynt ar y tir o 10 megawat neu fwy;
- Safleoedd cynhyrchu ynni eraill sydd â phŵer cynhyrchu rhwng 10 a 350 megawat.

Tystiolaeth

Ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw

50. Fe wnaeth Renewable UK Cymru ddadlau y dylid cael gwared ar yr ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt o Bolisiau 17 a 18. Roedd RWE Renewables o'r farn y gallai eu cynnwys gyfyngu'n amhriodol ar y diwydiant o ran cyflwyno prosiectau ynni adnewyddadwy. Roedd yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o brosiectau gwynt mawr ar y tir (>10MW) yn cael eu cyflwyno y tu allan i'r ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw.

51. Roedd Renewable UK Cymru ac RWE Renewables yn credu y bydd y diwydiant ynni adnewyddadwy yn gallu gweithio o fewn y fframwaith polisi diwygiedig a ddarperir gan Bolisiau 17 a 18, ond roeddent yn parhau i fod yn amheus ynghylch defnyddioldeb yr ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw.

52. Tynnodd RWE Renewables sylw at y ffaith bod maen prawf 2 ym Mholisi 18 yn cyfeirio at 'leihau' yr effaith weledol ar gymunedau cyfagos ac anheddau unigol. Mae'n cyflwyno'r cysyniad o 'dderbynioldeb' yng nghyd-destun effaith weledol gronnus yn unig. Fe wnaeth RWE Renewables ddadlau bod y term 'lleihau' yn rhy amwys ac y dylid cymhwyso'r prawf 'dim effaith andwyol annerbyniol' i effeithiau tirwedd a gweledol, fel y mae ar gyfer effeithiau posibl eraill. Tynnodd RWE Renewables a Renewable UK Cymru sylw at y ffaith mai dim ond yng nghyd-destun effaith weledol y mae sôn am effaith gronnus, gan ddadlau y gallai hefyd fod yn ystyriaeth wrth fynd i'r afael â phynciau fel cadwraeth natur, treftadaeth ddiwylliannol, a thrafnidiaeth.

53. Nododd Renewables UK Cymru ac RWE Renewables, er bod y rhan fwyaf o'r meini prawf ym Mholisi 18 yn cymhwyso'r prawf 'dim effeithiau andwyol annerbyniol', fod maen prawf 3 yn cymhwyso'r prawf mwy manwl gywir, sef 'dim effeithiau andwyol' mewn perthynas â safleoedd rhyngwladol a chenedlaethol ar gyfer cadwraeth natur, cynefinoedd gwarchoddedig a rhywogaethau. Roeddent yn dadlau y dylai'r prawf 'dim effeithiau andwyol annerbyniol' hefyd fod yn gymwys i safleoedd a rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod am eu gwerth o ran cadwraeth, gan roi mwy o ddisgresiwn i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau.

54. Fe wnaeth Renewables UK Cymru ddadlau y dylai Cymru'r Dyfodol adlewyrchu'r ffaith bod darpariaeth mewn deddfwriaeth ar gyfer cynlluniau a phrosiectau haen is sy'n cael effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000, lle ceir rhesymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig. Mae hwn, yn ymarferol, yn brawf caled i ddatblygiadau ei basio.

55. Fe wnaeth Renewables UK Cymru, RWE Renewables a Savills dynnu sylw at y datganiad ar dudalen 99 Cymru'r Dyfodol, sef "Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio systemau cynllunio ynni rhanbarthol i nodi cyfleoedd ar gyfer pob math o brosiect adnewyddadwy". Fe wnaethant fynegi pryder bod gadael i leoliad datblygiadau newydd gael ei nodi ar y lefel ranbarthol yn creu'r risg na fydd yr uchelgeisiau ar gyfer ynni adnewyddadwy yn Cymru'r Dyfodol yn cael eu gwireddu.

56. Fe wnaeth RWE Renewables ddadlau y dylai'r gwaith monitro ynghylch Cymru'r Dyfodol asesu'r cynnydd yn erbyn targedau cyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer ynni adnewyddadwy neu dargedau newydd sy'n angenrheidiol i gyflawni dyheadau 'sero-net'.

Polisi morol

57. Fe wnaeth Savills, yr Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig ac eraill ddadlau y dylai Cymru'r Dyfodol roi mwy o ystyriaeth i botensial ynni adnewyddadwy morol. Fe wnaeth RTPI Cymru ac RSPB Cymru ddadlau y dylid creu cysylltiadau cryfach rhwng Cymru'r Dyfodol a'r Cynllun Morol Cenedlaethol.

58. Cytunodd RWE Renewables a Renewable UK Cymru ei bod yn bwysig bod Cymru'r Dyfodol a'r Cynllun Morol Cenedlaethol yn gweithio gyda'i gilydd o ran datblygu ynni adnewyddadwy.

59. Nododd y Grid Cenedlaethol ei fod yn 'agnostig' ynghylch a yw datblygiad ar y tir neu ar y môr ond nododd fod angen diogelu'r nifer gyfyngedig o safleoedd sy'n addas ar gyfer glanfeydd ceblau.

Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

60. Fe wnaeth RTPI Cymru, Renewable UK Cymru ac RWE Renewables ddadlau y dylai Cymru'r Dyfodol gynnwys datganiad clir mai dyma haen uchaf y cynllun datblygu ac y caiff Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol arfaethedig eu hasesu yn erbyn ei bolisiau.

61. Fe wnaeth Renewable UK Cymru ddadlau y dylai Cymru'r Dyfodol gynnwys polisiau sy'n ymwneud â phob math o Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, nid prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn unig. Mynegodd Dr Neil Harris (Prifysgol Caerdydd) y farn bod y ffocws ar brosiectau ynni adnewyddadwy yn rhesymol o ystyried eu bod ar hyn o bryd yn gyfran uchel iawn o'r Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol sydd yn yr arfaeth.

Barn y Gweinidog

62. Dywedodd y Gweinidog y bydd Cymru'r Dyfodol yn golygu bod modd cynnal sgwrs â'r grid ei hun am ei ddyletswydd ei hun i gael datblygiad seilwaith rhagweithiol. Pwysleisiodd y Gweinidog, hefyd, fod y seilwaith grid presennol yn gosod problemau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Dywedodd y Gweinidog y byddai Cymru'r Dyfodol yn golygu bod modd cael sgwrsiau ag Ofgem a'r Grid Cenedlaethol am sawl mater, gan gynnwys tanddaearu'r cyflenwad trydan, yr effaith ar gymunedau, a gridiau ynni cymunedol lleol.

63. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y bu cryn ymgynghori â'r diwydiant ynni adnewyddadwy a bod Cymru'r Dyfodol wedi cael ei newid gryn dipyn i adlewyrchu hynny. Esboniodd swyddog a ddaeth gyda'r Gweinidog y canlynol am randdeiliaid sy'n ymwneud â'r diwydiant ynni adnewyddadwy:

“[they were] confused by the messaging that we were putting out with the draft consultation that we issued last year, so we've very much taken their comments to heart, and we have reorientated and simplified the policy. So, there are, essentially, just two policies now: one that sets out the Welsh Government's need for renewable energy and a criteria-based approach, which says the types of things that need to be considered in consenting these developments. So, the pre-assessed areas are part of the argument, but we were clear that we wanted to allow developments in the right place, outside pre-assessed areas, to come forward as well. So, we've gone from the traffic light approach, which was confusing people, to a simple, binary policy: one that sets out the need, and one that sets out the criteria by which developments will be considered.”

64. Gan gyfeirio at yr ardaloedd dynodedig a aseswyd ymlaen llaw, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

“[the Welsh Government's] already modelled the likely impact on the landscape and found them to be capable of accommodating development in that acceptable way, and, in saying that, I really want to say that we need to bring our communities with us in this. So, we need to be able to lever in the right amount of community benefit, community ownership; we need to understand what people have in their minds as an impact that is or is not acceptable.”

65. Dywedodd y Gweinidog fod angen i Cymru'r Dyfodol daro'r cydbwysedd iawn rhwng diogelu'r dirwedd a sicrhau bod gan ein cymunedau yr ynni sydd ei angen arnynt at y dyfodol. Esboniodd y Gweinidog y canlynol:

“We've just been having a conversation about making sure that people can live and work in every part of Wales. To do that, you need broadband; to have broadband, you need electricity, you need to have all the supply lines and all the rest of it. So, this is about us setting out strategically where our pre-assessed areas are. That will allow other developers who want to come in and look at Wales as a way to develop renewables to understand what we're talking about, but it also allows the Government to have those essential conversations with things like the grid and Ofgem about how to plan the grid in Wales.”

66. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a ddylai Cymru'r Dyfodol ganolbwyntio mwy ar faterion morol, dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwysig cydnabod bod

Cymru'r Dyfodol yn gynllun gofodol cenedlaethol ar gyfer y tir. Dywedodd y dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Cynllun Morol a phwysleisiodd y canlynol:

“just because it's not in this doesn't mean we're not considering it, because of course we are. We think that Wales should exploit its natural resources, land and sea, in order to do this in a sustainable way. There are just as many marine conservation concerns for the marine plan as there are for this.”

Ein barn ni

Rydym yn pryderu bod diffygion y grid yn rhwystro datblygiad ynni strategol yng Nghymru. Nodwn sylwadau'r Gweinidog y bydd Cymru'r Dyfodol yn sylfaen ar gyfer rhagor o drafodaethau â'r Grid Cenedlaethol a chwmnïau dosbarthu. Credwn yn gryf fod yn rhaid cynnal y trafodaethau hyn ar frys.

Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn, mewn egwyddor o leiaf, yr argymhelliad yn ein hadroddiad yn 2019 y dylai'r fframwaith bennu gweledigaeth strategol unedig ar gyfer dyfodol ynni yng Nghymru a bod yn glir ynghylch y targedau ar gyfer cynhyrchu trydan a datgarboneiddio y mae Llywodraeth Cymru yn anelu atynt.

Rydym yn falch bod Cymru'r Dyfodol wedi cael ei ddiwygio i ddarparu fframwaith mwy ategol ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy yn ogystal â gwynt ac ynni'r haul, a mynd i'r afael â'r gofynion storio a seilwaith ar y tir sydd gan ffermydd gwynt ar y môr. Mae Polisiâu 17 a 18, a 24 a 32 yn ymdrin â'r materion hyn. Fodd bynnag, credwn fod y fframwaith yn parhau i roi gormod o bwyslais ar ffermydd gwynt ar y tir. Credwn y dylai'r fframwaith ymdrin â'r cyfleoedd ar y tir sy'n gysylltiedig â chefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr. Nodwn y sylwadau a wnaeth y Gweinidog mewn perthynas â'r Cynllun Morol. Fodd bynnag, credwn y dylai'r cysylltiad rhwng Cymru'r Dyfodol a'r Cynllun Morol fod yn fwy eglur.

Roedd cyfranwyr o'r diwydiant ynni adnewyddadwy yn amheugar ynghylch rhinweddau ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt ac ynni'r haul ym Mholisiâu 17 a 18. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ailystyried a oes angen eu cynnwys yn Cymru'r Dyfodol.

Nodwn y sylwadau gan gyfranwyr ynghylch geiriad maen prawf 3 ym Mholisi 18, sy'n adlewyrchu'r lefel uchel o ddiogelwch a roddir i safleoedd a ddiogelir yn rhyngwladol a rhywogaethau penodol o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Mae'r

hyn sy'n 'dderbyniol' yn debygol o fod yn ddadleuol o ran cynefinoedd a rhywogaethau gwarchoddedig.

Mewn perthynas â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, rydym yn cytuno â'r awgrym o'r sylwadau gan gyfranwyr y dylai Cymru'r Dyfodol gynnwys datganiad clir mai dyma haen uchaf y cynllun datblygu, ac y bydd Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol arfaethedig yn cael eu hasesu yn erbyn ei bolisiau.

Argymhellion

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Grid Cenedlaethol, y cwmnïau dosbarthu trydan a'r diwydiant ynni adnewyddadwy i ddatblygu cydddealltwriaeth o'r gwelliannau strategol y mae angen eu gwneud i'r seilwaith trosglwyddo a dosbarthu trydan, gan gynnwys unrhyw seilwaith newydd sydd ei angen yng nghanolbarth Cymru. Dylai fersiwn gyntaf Cymru'r Dyfodol gynnwys ymrwymiad i ddatblygu strategaeth o'r fath. Os yw Llywodraeth Cymru yn credu na fyddai'n briodol cynnwys ymrwymiad o'r fath yn Cymru'r Dyfodol, dylai ymrwymo i wneud hynny mewn ffordd arall sy'n briodol yn ei barn hi.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylid cadw ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt ym Mholisiau 17 a 18 Cymru'r Dyfodol.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio testun y paragraff olaf ar dudalen 99 Cymru'r Dyfodol i wneud ei bwriad yn fwy eglur y dylai gwaith cynllunio ar lefel ranbarthol nodi cyfleoedd ar gyfer pob math o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy.

Argymhelliad 14. Wrth fonitro Cymru'r Dyfodol mewn perthynas â chynnydd o ran cyflenwi ynni adnewyddadwy, dylid ystyried y targed o gynhyrchu 70 y cant o'r defnydd o drydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030, a'r targedau sy'n ofynnol i gyflawni allyriadau carbon sero-net.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylai maen prawf 2 ym Mholisi 18 ei gwneud yn ofynnol cymhwyso'r prawf dim effeithiau gweledol neu sain andwyol annerbyniol ar gymunedau cyfagos nac anheddau unigol. Dylai hefyd ystyried a ddylai effaith gronnus fod yn ystyriaeth wrth asesu effeithiau amgylcheddol posibl eraill.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Cymru'r Dyfodol a'r Cynllun Morol Cenedlaethol wedi'u halinio'n dda ac yn ategu ei gilydd mewn perthynas â datblygiadau ynni adnewyddadwy. Dylai Cymru'r Dyfodol roi

arweiniad ar warchod glanfeydd posibl ceblau ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr.

Argymhelliad 17. Dylai Cymru'r Dyfodol gynnwys datganiad clir mai dyma haen uchaf y cynllun datblygu a bod yn rhaid asesu Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol arfaethedig yn ei erbyn.

6. Tai

Polisi 7 - Darparu cartrefi fforddiadwy

67. Mae Polisi 7 yn cynnwys amcangyfrifon o'r angen am dai yn y pedwar rhanbarth. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi y dylai'r amcangyfrifon hyn:

“...lywio'r gofynion tai a nodir mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol... disgwylir i'r gofynion tai fod yn wahanol i'r amcangyfrifon o'r angen am dai.”

68. Mae'r polisi'n nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy sy'n cael eu darparu drwy sicrhau y caiff cyllid ar gyfer y cartrefi hyn ei ddyrannu a'i ddefnyddio'n effeithiol. Drwy gyfrwng Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol, dylai awdurdodau cynllunio:

“...ddatblygu fframweithiau polisi cryf sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn cyflenwi tai fforddiadwy, gan gynnwys gosod targedau ar gyfer cynlluniau datblygu yn seiliedig ar amcangyfrifon rhanbarthol o'r angen am dai ac asesiadau lleol. Mewn ymateb i anghenion lleol a rhanbarthol, dylai awdurdodau cynllunio nodi safleoedd ar gyfer datblygiadau a arweinir gan dai fforddiadwy ac ystyried pob cyfle i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.”

Tystiolaeth

69. Fe wnaeth Savills ac Ystadau Llanarth ddadlau nad yw Cymru'r Dyfodol yn rhoi amcangyfrif cywir o faint o angen sydd am dai. Galwodd Savills am ddileu'r amcangyfrifon o'r angen am dai, gan adael i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol bennu'r gofynion mewn ffordd sy'n adlewyrchu uchelgeisiau ac amodau lleol.

70. Fe wnaeth Ystadau Llanarth ddadlau y gall adeiladu tai gymryd rhan bwysig yn yr adferiad ar ôl COVID-19 ac y dylai Cymru'r Dyfodol bennu lefel uchelgeisiol o dwf, nid un sy'n seiliedig ar y cyfnod gwaethaf o ran adeiladu cartrefi mewn hanes diweddar.

71. Fe wnaeth y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a St Modwen Developments ddadlau bod Cymru'r Dyfodol yn dal i ganolbwyntio'n ormodol ar dai fforddiadwy, heb roi digon o glod i fuddion cymdeithasol ac economaidd tai preifat a'u rôl o ran diwallu'r angen am dai. Fe wnaeth Savills ddadlau hefyd nad yw Cymru'r

Dyfodol yn cydnabod y cysylltiad rhwng tai fforddiadwy a'r cyflenwad cyffredinol o dai.

72. Fe wnaeth Cancer Research UK a'r RSPCA ddadlau y dylid ehangu cwmpas Polisi 7 i gwmpasu'r cyflenwad cyfan o dai, neu y dylid ychwanegu polisi ar wahân ar dai'r farchnad agored.

73. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, galwodd Sefydliad Siartredig Tai Cymru i Cymru'r Dyfodol roi mwy o bwyslais ar dai cymdeithasol. Roedd yn credu y byddai angen mynd y tu hwnt i'r amcangyfrif cyfredol o ran yr angen am dai cymdeithasol a fforddiadwy. Dywedodd hefyd y dylai Cymru'r Dyfodol gyfeirio at 'dai hygyrch', gan gydnabod bod angen gallu addasu cartrefi yn aml i ddiwallu anghenion newidiol y meddiannwyr.

Barn y Gweinidog

74. Dywedodd y Gweinidog fod sawl adolygiad o bolisi tai, gan gynnwys y cyflenwad tai fforddiadwy, wedi llywio datblygiad Cymru'r Dyfodol. Ei nod oedd sicrhau'r ffordd orau o helpu'r nifer fwyaf o bobl i gael y tai fforddiadwy y mae eu hangen arnynt ledled Cymru mewn amrywiaeth o ddeiliadaethau.

75. Dywedodd y Gweinidog y dylid darllen Cymru'r Dyfodol ochr yn ochr â dogfennau polisi adeiladu a thai eraill. Dywedodd y canlynol:

“there are a whole series of other things in the build and planning regulations that allow us to control the size, quality, insulation standards, sprinklers in new build, layouts, energy systems—all kinds of stuff.”

76. Cadarnhaodd y Gweinidog, fodd bynnag, y byddai'r diwygiadau a addawyd ers tro i Ran L o'r rheoliadau adeiladu³ yn cael eu gohirio oherwydd pandemig COVID-19.

Ein barn ni

Nododd sawl cyfrannwr yr angen i gynyddu lefelau adeiladu tai a chyfraniad posibl y buddsoddiad mewn adeiladu tai at yr adferiad ar ôl COVID-19.

Yn ein hadroddiad ar FfDC drafft 2019, daethom i'r casgliad y dylai Llywodraeth Cymru bennu'r dulliau i'w defnyddio i ddarparu tai fforddiadwy newydd ar y

³ <https://llyw.cymru/adolygiad-rhan-l-o-reoliadau-adeiladu>

raddfa a ragwelir gan y strategaeth. Heb hyn, byddai'n anodd gweld sut y gellid cyflawni'r strategaeth yn ymarferol. Gwrthododd Llywodraeth Cymru hyn. Mae Polisi 7 yn Cymru'r Dyfodol yn parhau i nodi bod angen newid yn y model cyflenwi ac mae'n ymrwymo i weithio ar y cyd i gynyddu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy, ond nid yw'n nodi dulliau penodol o'u darparu. Mae'r hepgoriad hwn yn parhau i beri pryder i ni a chredwn y dylid ymdrin â hyn. Os yw Llywodraeth Cymru yn credu nad yw'n briodol ymdrin â'r mater hwn yn Cymru'r Dyfodol, dylai ymrwymo i fwrw ymlaen ag ef mewn ffordd arall.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru dderbyn, mewn egwyddor, gasgliad blaenorol y Pwyllgor, sef y dylai Cymru'r Dyfodol edrych ar y sector tai yn ei gyfanrwydd a mynd i'r afael â rôl y sector preifat o ran darparu tai, gan gynnwys busnesau adeiladu bach a chanolig wrth ddarparu tai. Nodwn, er bod Cymru'r Dyfodol yn cadw ffocws ar rôl awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o ran cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy, fod testun Pennod 4 wedi'i ddiwygio i gydnabod rôl bwysig y farchnad o ran diwallu'r angen am dai.

Nodwn y sylwadau gan rai cyfranwyr y dylid gadael adeiladu tai i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Mae Polisi 19 Cymru'r Dyfodol yn nodi'n glir bod strategaeth ofodol, hierarchaeth aneddiadau a gofynion a darpariaeth tai'n faterion ar gyfer gwaith cynllunio ar lefel ranbarthol. Rydym yn fodlon bod hyn yn ddigonol.

Rydym yn siomedig na fydd diwygiadau i Ran L o'r rheoliadau adeiladu yn cael eu cyflwyno yn ystod y sesiwn hon o Senedd Cymru. Mae angen diwygiadau ac nid yw'n dderbyniol parhau i ohirio'r newidiadau anoche.

Argymhellion

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu Rhan L ddiwygiedig o'r rheoliadau adeiladu, fel bod Llywodraeth nesaf Cymru yn gallu cyflwyno is-ddeddfwriaeth cyn gynted â phosibl yn dilyn etholiad y Senedd yn 2021.

7. Cysylltedd

77. Mae Polisiâu 10-14 yn canolbwyntio ar wella cysylltedd yng Nghymru, yn amrywio o gysylltedd rhyngwladol (Polisi 10) drwy feysydd awyr a phorthladdoedd; cysylltedd trafndiaeth cenedlaethol a rhanbarthol (Polisiâu 11 a 12) a signal telathrebu digidol a symudol (Polisiâu 13 a 14).

Tystiolaeth

78. Fe wnaeth RTPI Cymru ddadlau y dylid cydnabod cysylltiadau ffyrdd rhwng y gogledd a'r de ar y map o Goridorau Trafndiaeth Strategol a Datblygiadau Metro ar dudalen 88 Cymru'r Dyfodol. Fe wnaeth Dr Roisin Willmott (RTPI Cymru) ymhelaethu ar hyn mewn tystiolaeth lafar, gan nodi, yn niffyg rhwydwaith rheilffyrdd effeithiol yng nghanolbarth Cymru, fod cysylltedd rhwng y gogledd a'r de yn dibynnu'n fawr ar y rhwydwaith ffyrdd. Roedd Roisin yn teimlo bod angen cydnabod pwysigrwydd yr A470. Fodd bynnag, yn ei dystiolaeth lafar, awgrymodd Dr Neil Harris (Prifysgol Caerdydd) y gallai ymyriadau trafndiaeth eraill yn ne-ddwyrain Cymru fod yn fwy cynaliadwy.

Barn y Gweinidog

79. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a ddylai Cymru'r Dyfodol wneud mwy i hyrwyddo cysylltedd rhwng y gogledd a'r de, ymateb y Gweinidog oedd:

“One of the reasons that you want to put a strategic plan in place is that you want each of the strategic regions to think about the kinds of connectivity that we want. So, absolutely, because of where the population is in Wales, you get an east-west flow along the south and along the north. There isn't that much population in the middle, and so you don't have a good north-south connection for obvious reasons. But what you want to do is you want to be able to signal to those areas that, in planning for those kinds of connectivity, they should be planning for the infrastructure that allows that.”

80. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn credu y dylai Cymru'r Dyfodol arwain at ryng-gysylltedd gwell. Dywedodd fod y fframwaith yn ddigon hyblyg i ymateb i bolisiâu trafndiaeth uchelgeisiol, fel ailagor rheilffyrdd penodol.

Ein barn ni

Yn ein hadroddiad ar FfDC drafft 2019, daethom i'r casgliad y dylai'r fframwaith fynd i'r afael â'r cysylltedd gwael rhwng gogledd a de Cymru. Derbyniodd Llywodraeth Cymru hyn, ond nid yw Cymru'r Dyfodol yn adlewyrchu hyn yn ddigonol.

Dywedodd ymateb Llywodraeth Cymru mai ei nod yw gwella cysylltedd ledled Cymru a rhwng y rhanbarthau drwy leihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, a chefnogi newid moddol i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod y rhain yn ffyrdd pwysig o hyrwyddo'r agenda datgarboneiddio, ond nid ydynt yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r diffyg cydnabyddedig o ran cysylltedd rhwng gogledd a de Cymru. Credwn y gallai Cymru'r Dyfodol wneud mwy i wella cysylltedd rhwng gogledd, de a gorllewin Cymru. Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r materion hyn.

Nodwn fod y datganiadau polisi ym Mhennod 5 Cymru'r Dyfodol yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol a rhanbarthol ar fuddsoddiadau trafniadaeth i gryfhau rhai cysylltiadau trafniadaeth trawffiniol. Fodd bynnag, credwn fod y polisi'n rhoi gormod o'r baich ar gyfer hyrwyddo cysylltiadau rhynggranbarthol gwell ar ysgwyddau'r rhanbarthau eu hunain. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut mae'n gweld ei rôl mewn perthynas â chysylltedd trafniadaeth rhynggranbarthol. Rydym yn cael ar ddeall y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori'n fuan ar Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Dylai'r materion hyn gael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth honno.

Argymhelliad

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei rôl o ran gwella cysylltedd rhwng gogledd a de Cymru a chysylltiadau trafniadaeth rhynggranbarthol eraill o bwysigrwydd cenedlaethol. Dylai hyn hefyd fynd i'r afael â chysylltedd rhwng y dwyrain a'r gorllewin yng ngogledd a de Cymru fel ei gilydd.

8. Bioamrywiaeth, seilwaith gwyrdd, a'r fforest genedlaethol

Polisi 9 – Rhwydweithiau ecolegol cadarn a seilwaith gwyrdd

81. Mae Cymru'r Dyfodol yn dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i nodi meysydd y dylid eu diogelu a'u creu fel rhwydweithiau ecolegol. Bydd yn nodi cyfleoedd lle gellid gwneud y mwyaf o'r seilwaith gwyrdd presennol a'r seilwaith gwyrdd posibl. Dylai awdurdodau cynllunio gynnwys y meysydd a/neu'r cyfleoedd hyn yn strategaethau a pholisïau eu cynlluniau datblygu.

82. Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn datgan bod unrhyw feysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu sy'n cael eu nodi mewn Datganiadau Ardal (sy'n cael eu paratoi gan Cyfoeth Naturiol Cymru) yn ystyriaeth gynllunio faterol ac y dylai cynlluniau datblygu amlinellu polisïau priodol i ddiogelu a chysylltu'r ardaloedd hyn. Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol gael eu llywio gan Aseidiadau Seilwaith Gwyrdd.

83. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, fe wnaeth RSPB Cymru alw am bolisi penodol ar gyfer gwarchod safleoedd Natura 2000, SoDdGA a safleoedd Ramsar. Mae adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi ffocws ar rywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a dylai fod yn sbardun allweddol ar gyfer adfer a chreu cynefinoedd. Gofynnodd Coed Cadw am gyfeiriad penodol at y ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn y Ddeddf honno.

84. Daw'r testun ar dudalen 8 Cymru'r Dyfodol i'r casgliad y 'gellir osgoi cael effeithiau andwyol ar uniondeb safleoedd Natura 2000 o ganlyniad i weithredu'r polisïau yn Cymru'r Dyfodol'. Fe wnaeth Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ddadlau bod hyn yn camliwio canfyddiadau'r Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd. Dadleuodd fod hyn oherwydd nad yw'n cynnwys polisi manwl i sicrhau'r mesurau lliniaru a nodir yn Nhabl 7 yr Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd, ond ei fod yn dibynnu ar ddarparu hyn ar lefelau strategol a lleol o ran cynllunio datblygu.

Lleiniau glas

85. Fe wnaeth Savills, Barratt David Wilson Homes, Walters Land, Cancer Research UK a'r RSPCA ddadlau bod y dull gweithredu y mae Cymru'r Dyfodol yn ei fabwysiadu o ran lleiniau glas yn golygu nad oes lle i ystyried a ydynt yn angenrheidiol, eu maint a sut y dylent weithredu. Roeddent o'r farn y dylai'r

materion hyn fod yn rhai i awdurdodau lleol eu hasesu wrth baratoi'r Cynlluniau Datblygu Strategol a'r Cynlluniau Datblygu Lleol.

86. Fe wnaeth Barratt David Wilson Homes ddadlau y dylid tynnu'r ardaloedd sydd wedi'i nodi fel lleiniau glas o'r diagramau strategol rhanbarthol, neu y dylai'r polisi nodi y dylai Cynlluniau Datblygu Lleol a phenderfyniadau rheoli datblygu ystyried Polisi Cynllunio Cymru nes bod cynllun datblygu strategol wedi pennu'r angen am leiniau glas a'u ffiniau. Pwysleisiodd y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi bwysigrwydd peidio â phennu lleiniau gwyrdd yn rhy agos o amgylch ffiniau trefol.

Polisi 15 – Fforest genedlaethol

87. Mae'r Polisi hwn yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn nodi safleoedd a dulliau o ddatblygu fforest genedlaethol, a bydd yn ategu camau gweithredu i ddiogelu lleoliadau arfaethedig.

88. Dywedodd RWE Renewables nad oes digon o fanylion am y fforest genedlaethol i fod yn glir ynghylch ei goblygiadau posibl o ran datblygiadau ynni adnewyddadwy. Derbyniodd Dr Neil Harris fod gwaith yn dal i fynd rhagddo ynghylch y fforest genedlaethol ond roedd yn teimlo ei bod yn bwysig ei bod yn cael mynegiant gofodol. Mae Coed Cadw o'r farn y gellid integreiddio'r fforest genedlaethol yn well ym Mholisiau 1-7 Cymru'r Dyfodol.

Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Dynodedig

89. Nododd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru, Cymdeithas Eryri, Ffrindiau Parc Cenedlaethol Sir Benfro a'r Gynghrair dros Dirluniau Dynodedig Cymru fod y Parciau Cenedlaethol yn asedau o bwysigrwydd cenedlaethol, yn cyfrif am 20 y cant o arwynebedd tir Cymru ac yn gwneud cyfraniad pwysig at lesiant. Roeddent yn dadlau eu bod yn wynebu heriau mawr, gan gynnwys datblygiad amhriodol, pwysau o ran niferoedd ymwelwyr, pwysau sy'n gysylltiedig â cheir a materion tai y dylai polisi penodol yn Cymru'r Dyfodol fynd i'r afael â hwy.

90. Fe wnaeth Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ddadlau y gallant wneud cyfraniadau gwerthfawr at baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol, ond fe wnaethant fynegi pryder ynghylch y goblygiadau o ran adnoddau, gan nodi y gallai fod yn ofynnol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gyfrannu at baratoi tri chynllun datblygu strategol. Roeddent yn dadlau y dylai Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol allu dewis cyfrannu at baratoi Cynllun Datblygu Strategol.

91. Roedd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn dadlau, hefyd, fod y gefnogaeth mewn egwyddor i adweithydd bach yn Nhrawsfynydd a'r Parth Twf

Rhanbarthol ym Mannau Brycheiniog yn anwybyddu'r prawf datblygu mawr ym Mholisi Cynllunio Cymru. Gwnaeth Cymdeithas Eryri yr un pwynt ynghylch yr adweithydd arfaethedig yn Nhrawsfynydd.

92. Fe wnaeth Ymddiriedolaeth John Muir a Chymdeithas Mynyddoedd Cambria ddadlau, er nad ydynt yn cael eu gwarchod gan ddynodiad tirwedd, fod Mynyddoedd Cambria yn dirwedd ucheldir werthfawr ac fe'u nodir fel man pwysig ar gyfer gwasanaethau ecosystem a bioamrywiaeth ar y map Adnoddau Naturiol Cenedlaethol ar dudalen 79 Cymru'r Dyfodol. Nododd Ymddiriedolaeth John Muir ei bod yn ymddangos eu bod yn gorgyffwrdd ag ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw (3 a 4) ar gyfer datblygiad ynni gwynt a gwres adnewyddadwy ar dudalen 94. Galwodd y ddau sefydliad am gael rhywfaint o ddiogelwch i gymeriad eu tirwedd.

Ein barn ni

Roedd ein hadroddiad blaenorol ar FfDC drafft 2019 yn cynnwys nifer o gasgliadau mewn perthynas â bioamrywiaeth, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, fe wnaeth cyfranwyr fynegi sawl pryder sydd heb eu hateb ynghylch Polisi 9 Cymru'r Dyfodol. Mae'r argymhellion sy'n dilyn yn ymdrin â'r rhain.

Mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor yn ei adroddiad ar FfDC drafft 2019, derbyniodd Llywodraeth Cymru fod angen mwy o eglurder am rôl lleiniau glas yn y strategaeth genedlaethol a rhanbarthol. Fodd bynnag, fe wnaeth cyfranwyr barhau i godi pryderon bod y dull gweithredu yn Cymru'r Dyfodol yn cyfyngu ar ddisgresiwn awdurdodau lleol mewn perthynas â phennu lleoliad a maint y lleiniau glas yn eu rhanbarthau. Nodwn y sylwadau hyn, ond ni allwn gytuno â nhw. Credwn fod lleiniau glas yn ffordd hanfodol o gyfyngu ar flerdwf trefol. Dylid cryfhau eu swyddogaeth, a dylai Cymru'r Dyfodol bwysleisio'u buddion.

Mewn perthynas â pholisi'r fforest genedlaethol, rydym yn cytuno â'r awgrymiadau gan gyfranwyr y dylid rhoi mynegiant gofodol i'r fforest genedlaethol ac y dylid ei hintegreiddio'n well ym Mholisiau 1-7.

Gwnaeth cyfranwyr sawl pwynt manwl ynglŷn â'r parciau cenedlaethol, ac rydym yn ymdrin â'r rhain yn yr argymhellion sy'n dilyn.

Argymhellion

Argymhelliad 20. Dylai'r testun sy'n ategu Polisi 9 – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd nodi rhywogaethau a chynefinoedd adran 7 fel sbardunau posibl ar gyfer creu ac adfer cynefinoedd.

Argymhelliad 21. Dylai'r testun sy'n ymwneud â'r Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd ar dudalen 8 Cymru'r Dyfodol gael ei ddiwygio i adlewyrchu'n gliriach y bydd angen dangos diffyg effeithiau andwyol ar y nodweddion y dynodwyd safle Natura 2000 ar eu cyfer yn y cynllun haen is neu'r cam prosiect.

Argymhelliad 22. Mae lleiniau glas yn ffordd hanfodol o gyfyngu ar flerdwif trefol, a dylai Cymru'r Dyfodol gryfhau eu swyddogaeth a phwysleisio'u buddion.

Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth Cymru roi mynegiant gofodol i'r fforest genedlaethol a chynnwys cyfeiriadau addas ati ym Mholisiau 1-7 a'r testun ategol.

Argymhelliad 24. Dylai Cymru'r Dyfodol gynnwys datganiad ar rôl Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wrth baratoi cynlluniau datblygu strategol a dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r goblygiadau o ran adnoddau.

Argymhelliad 25. Dylai Cymru'r Dyfodol gynnwys polisi penodol ynghylch Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, gan gyfeirio at Gwerthfawr a Chydnerth – Blaenoriaethau ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol (2018).

Argymhelliad 26. Dylai Cymru'r Dyfodol adlewyrchu'r angen i gymhwyso'r prawf datblygiad mawr i gynigion ar gyfer datblygiadau mawr mewn Parciau Cenedlaethol.

Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
15 Hydref 2020	<p>Julie James AS, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru</p> <p>Jon Fudge, Llywodraeth Cymru</p> <p>Neil Hemington, Llywodraeth Cymru</p>
05 Tachwedd 2020	<p>Dr Roisin Willmott OBE, Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Cymru</p> <p>Dr Neil Harris, Yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio, Prifysgol Caerdydd</p> <p>Hêdd Roberts, Y Grid Cenedlaethol</p> <p>Eleri Davies, RWE Renewables</p> <p>Rhys Wyn Jones, Renewable UK Cymru</p>

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
NDF v2 01	Unigolyn
NDF v2 02	Unigolyn
NDF v2 03	Unigolyn

NDF v2 04	Savills ar ran Cancer Research UK a'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (RSPCA)
NDF v2 05	Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Cymru
NDF v2 06	Coed Cadw
NDF v2 07	Y Tri Awdurdod Parciau Cenedlaethol
NDF v2 08	Cymdeithas Mynyddoedd Cambria
NDF v2 09	Llanarth Estates
NDF v2 10	Savills ar ran Walters Land Limited
NDF v2 11	Renewable UK Cymru (RUKC)
NDF v2 12	Y Sefydliad Tai Siartredig
NDF v2 13	Y Cerddwyr
NDF v2 14	Savills
NDF v2 15	RPS Consulting Services Ltd ar ran Barratt David Wilson Homes
NDF v2 16	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
NDF v2 17	RWE Renewables UK Ltd
NDF v2 18	Cyngor Sir Gâr
NDF v2 19	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
NDF v2 20	RSPB Cymru
NDF v2 21	Ymddiriedolaeth John Muir
NDF v2 22	Savills ar ran St Modwen Developments Limited
NDF v2 23	Unigolyn
NDF v2 24	Ffrindiau Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
NDF v2 25	Cymdeithas Eryri
NDF v2 26	Y Grid Cenedlaethol
NDF v2 27	Unigolyn
NDF v2 28	Crompton Land & Development Ltd